



DISGRIFIAD SWYDD

- TEITL Y SWYDD:** **Cydlynnydd Ennyn Diddordeb Myfyrwyr: Project Iechyd Meddwl Cyfrwng Cymraeg**
- YN ATEBOL I:** Cydlynnydd Cefnogaeth a Chynrychiolaeth Myfyrwyr, ac hefyd yn adrodd i Reolwr Project HEFCW ym Mhrifysgol Bangor, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r project
- CYFLOG:** Gradd Gydlynnydd UMAber: £19,100-21,100 ar hyn o bryd
- ORIAU:** Llawn amser, oriau blyneddol (36.5 awr yr wythnos), i'w gweithio'n hyblyg wedi trafodaeth â'r rheolwr llinell.
- DYDDIAD A YSGRIFENNWYD:** Medi 2021

Mae'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl yn hanfodol i'r swydd hon

Ariennir y prosiect gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), mae Prifysgol Aberystwyth yn bartner cydweithiol mewn prosiect i wella Cefnogaeth Iechyd Meddwl a Lles i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r project yn ymwneud â datblygu a rhoi cefnogaeth gynaliadwy i wella'r ddarpariaeth iechyd meddwl a lles i fyfyrwyr y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt ac yn ddewis iaith ganddynt, gan gynnwys datblygu a chreu adnoddau ar-lein a datblygu Rhwydwaith Ymarferwyr a Therapyddion Iechyd Meddwl Cymraeg Cymru Gyfan. Bydd y project hwn yn arwain at gam mawr ymlaen tuag at sicrhau cywerthedd i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

DIBEN Y SWYDD

Rydym yn bwriadu penodi Intern Graddedig i chwarae rhan allweddol yn cefnogi'r project hwn a'i ddatblygu ymhellach ynghyd â gwefan Myf.Cymru, gan ddatblygu adnoddau iechyd meddwl a chynnwys Cymraeg amlgyfrwng wedi'i werthuso gan fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith i ddarparu gwybodaeth a chynghor, cyfeirio at wasanaethau a chodi ymwybyddiaeth ymysg myfyrwyr a'i gilydd. Bydd yr Intern

Graddedig yn arwain ar y gwaith o recriwtio a chydweithio â myfyrwyr yn Aberystwyth i sicrhau cyfraniad ac adborth gan fyfyrwyr i'r wefan.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

- Arwain ar ennyn diddordeb myfyrwyr a'u hannog i greu cynnwys i'r wefan a sicrhau eu cyfraniad i'r project.
- Datblygu cysylltiadau gwaith agos gyda staff proffesiynol sy'n cymryd rhan yn y project ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Undeb Myfyrwyr Aberystwyth a'r rhai mewn sefydliadau partner.
- Gweithio gyda Rheolwr Project HEFCW i recriwtio myfyrwyr i ddatblygu cynnwys ar-lein a gwerthuso'r wefan.
- Cefnogi'r Rheolwr Project yn ei swydd ac ym mhob agwedd ar y project
- Cefnogi hyfforddiant cyfranwyr sy'n fyfyrwyr
- Cadw mewn cysylltiad â'r Rheolwr Project i gadw cofnodion o'r holl oriau a gwblheir gan fyfyrwyr ar system gweithwyr achlysurol Prifysgol Bangor.
- Meithrin perthynas effeithiol gyda myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr ac arweinwyr myfyrwyr yn y sefydliad i gefnogi datblygiad y project.
- Cefnogi Rheolwr Project HEFCW gyda'r rhwydwaith myfyrwyr ac unrhyw grwpiau ffocws myfyrwyr a gynhelir i dderbyn adborth ar ddatblygiad y wefan.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o drefnu a gweithredu'r prosesau a'r gweithdrefnau gweinyddol o ddydd i ddydd fel rhan o'r project ac yn y sefydliad partner.

DYLETSWYDDAU ERAILL:

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all gynorthwyo â chyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau UMAber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisïau UMAber yn gadarnhaol.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo gweithgareddau a gwasanaethau adrannau eraill

- Mae ystyriaethau amgylcheddol ac arferion gorau parthed yr amgylchedd yn gyfrifoldeb i holl staff Undeb y Myfyrwyr
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

NEWIDIADAU YN Y SWYDD DDISGRIFIAD

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deiliad y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deiliad y swydd, a gall fod disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.

MANYLEB Y PERSON – INTERN GRADEDIG: Project Iechyd Meddwl Cyfrwng Cymraeg

MEINI PRAWF	Angenrheidiol	Cais	Cyfweliad
CYMWYSTERAU			
Addysg i NVQ lefel IV / Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNC) (neu gyfwerth) mewn pwnc priodol neu feddu ar brofiad cyfatebol mewn maes perthnasol.	Hanfodol	√	
Addysg i lefel gradd neu gyfwerth.	Dymunol	√	
PROFIAD			
Profiad o ennyn diddordeb myfyrwyr yn llwyddiannus mewn gweithgaredd brosiect.	Dymunol	√	√
GWYBODAETH			
Dealltwriaeth o gyd-destun cymdeithasol a diwylliannol y gymuned fyfyrwyr Cymraeg ei hiaith.	Hanfodol	√	√
Dealltwriaeth o'r materion presennol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a lles myfyrwyr ac ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru.	Hanfodol	√	√
NODWEDDION/SGILIAU			
Sgiliau trefnu a threfnu personol rhagorol sy'n galluogi gweithio'n effeithlon, yn annibynnol ac fel rhan o dîm.	Hanfodol		√
Sgiliau cyfathrebu dwyieithog a sgiliau rhyngpersonol rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar (Cymraeg/Saesneg).	Hanfodol	√	
Sgiliau gweithio mewn tîm rhagorol gyda'r gallu i gydweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr.	Hanfodol	√	√
Sgiliau TG rhagorol, gan gynnwys bod yn gyfarwydd â chymwysiadau MS Office.	Hanfodol	√	√
Parodrwydd i dderbyn cyfrifoldebau ychwanegol.	Hanfodol	√	√
Dealltwriaeth ac ymroddiad dros hyrwyddo cyfartaledd ac amrywiaeth ac arferion cynhwysol.	Hanfodol	√	√
Ymroddgar dros gynnal gwerthoedd yr Undeb Myfyrwyr.	Hanfodol	√	√
Ymroddgar dros ddod o hyd i ffyrdd newydd i ryngwynebu â'r corff myfyrwyr.	Dymunol	√	√
Bod yn gyfforddus â gweithio gyda thechnolegau a meddalwedd newydd.	Dymunol	√	√